

Glannau Abertawe

Cam 7 SA1

Bwletin y Prosiect Mawrth 2019

GRIFFITHS

civil engineering and construction

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae gwaith adnewyddu wedi trawsnewid yr ardal o gwmpas Doc Tywysog Cymru ac ar hyd glan y môr. Gan blannu coed helaeth a defnyddio dodrefn cyhoeddus, mae'r ardal wedi ei datblygu'n sylweddol. Er mwyn gwella'r ardal, cafodd dros 3000m² o bafin ei gosod, yn ogystal â 310m³ o goncrit, 400m o gyrbau gwenithfaen a sianeli â 22m o ganllaw dur gwrthstaen. Mae hefyd pibellau draenio o'r golwg sydd yn mesur tua 525m o gyfanswm hyd.



Gorffennaf 2018



Chwefror 2019

Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae mascot lechyd a Gofal y cwmni sef 'Sally Safesteps', yn awyddus iawn i gwrdd â phlant mewn ysgolion cynradd lleol a grwpiau cymunedol i blant ifanc. Bydd hi'n rhannu neges bwysig am gadw'n ddiogel ger safleoedd adeiladu ac yn benodol, am arwyddion diogelwch. Gellir teilwra'r sesiynau er mwyn cynnwys dysgu'n lleol.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y sesiynau sydd am ddim, cysylltwch â ni gan ddefnyddio manylion ar waelod y cylchlythyr.



Gyrfaoedd mewn Adeiladwaith

Mae Griffiths yn cydweithio â Gyrfa Cymru, nid yn unig i gefnogi pobl ifanc i sicrhau dyfodol yn y diwydiant, ond i ddarparu cefnogaeth fentora mewn ysgolion ar gyfer cyfweiliadau neu i gefnogi sgiliau menter pobl ifanc.

Mae rhagor o wybodaeth ar y wefan Go Construct, gan gynnwys Cwis Personoliaeth a anelir at bobl sydd yn ansicr ynghylch pa yrfa i'w dewis. Gan fod yna 42 gwahanol rôl yn y diwydiant adeiladu, mae hyn yn adnodd defnyddiol iawn. <https://www.goconstruct.org/learn-about-construction/find-the-role-for-you/>

Mae Griffiths hefyd yn mynychu Ffeiriau Gyrfa ac ysgolion Gaerfyrddin

Digwyddiad SkillsCymru yn Sir



Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni drwy ein gwefan ar community.alungriffiths.co.uk neu cysylltwch â Jane Howells, ein Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd ar

0330 0414651* neu jane.howells@alungriffiths.co.uk

* Bydd galwadau yn costio yn ôl y gyfradd genedlaethol a byddant yn rhan o funudau cynwysedig ffôn symudol a llinell dir.